

**CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod Gorffennaf Cyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd ar y 11/7/2018 yn Festri Porthyrhyd am 7.30pm**

**Minutes of the July meeting of Llanddarog Community Council held on the 11/7/2018 at the Vestry Porthyrhyd at 7.30pm**

**74/2018-19 Presennol / Present:**

Cynghorwyr / Councillors: R Owen (Cadeirydd / *Chairman*), R Jones, M Rees, J Youens, R Newell, S Herridge, J Williams O.B.E & E Davies.

Clerc / *Clerk & Cyfieithydd / Translator.*

**75/2018-19 Ymddiheuriadau / Apologies.**

W Evans, D Stewart.

**76/2018-19 Datganiadau o fuddiannau / Declarations of interest.**

Dim / *None*

**77/2018-19 Cyfle i'r cyhoedd i annerch y Cyngor / Opportunity for the public to address the Council**

Dim / *None*

**78/2018-19 Materion Plismona a diogelwch ffyrdd / Policing and Road Safety Matters**

Roedd yna drafodaeth ynglŷn â'r ffaith fod llinellau gwyn dal heb gael ei ddodi ym Mhorthyrhyd yn dilyn y gwaith ar arwyneb yr heol cryn amser yn ôl. Hefyd, roedd yna drafodaeth ynglŷn â'r estyniad arfaethedig 30milltir yn awr o Gefneithin tuag at Foelgastell gan fod y Cyngor wedi gofyn am ostyngiad cyflymder ar heol Porthyrhyd at Foelgastell. Fe benderfynwyd nodi'r item yma. / *There was discussion as to the fact that white lines had still not been placed in Porthyrhyd following road surface works undertaken some time ago. Furthermore, there was discussion it with regards to the proposed 30mph extension from Cefneithin outwards to Foelgastell given the Council's request for speed reduction on the Porthyrhyd to Foelgastell road. It was resolved to note this item.*

**79/2018-19 Materion Cyngor Sir - Cyng Sir A Davies / County Council matters - County Cllr A Davies**

Roedd Cyng Sir Davies wedi ymddiheuro nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod, ond fe roddwyd adroddiad ysgrifenedig llawn drwy'r Clerc. Ymysg y materion a drafodwyd oedd ei threfniant hi o gyfarfod safle ym Mynyddcerrig i drafod pryderon cyflymder traffig (cyf cofnod 69/2018-19 (c)). Fe benderfynwyd diolch i Cyng A Davies am ei adroddiad. / *County Cllr Davies had apologised that she was not in the meeting, however she had provided a full written report through the Clerk. Amongst those matters discussed was her arranging of site meeting in Mynyddcerrig to discuss traffic speed concerns (minute 69/2018-19 (c)) refers. It was resolved to thank County Cllr Davies for her report.*

### **80/2018-19 Adroddiad y Cadeirydd / Chairman's Report**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r Cyfarfod. Fe wnaeth rhoi adborth yn dilyn cyfarfod cyhoeddus ynghylch Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Gar yn 2021. Fe wnaeth adrodd hefyd ar ddigwyddiad gerdded llwyddiannus y Ffermwyr Ifanc yn ogystal â Sioe Llanddarog. Fe benderfynwyd nodi'r adroddiad. / *The Chairman welcomed everyone to the Meeting. He provided feedback on a public meeting regarding the Urdd National Eisteddfod in Carmarthenshire in 2021. The Chairman also reported on the successful young farmers walk as well as Llanddarog Show. It was resolved to note the report.*

### **81/2018-19 Cadarnhau ac arwyddo Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 13/06/18 / Confirmation and signing of the Minutes of the Council Meeting 13/06/18**

Ar ôl cynnig gan y Cyng R Jones ac eilio gan Cyng M Rees; penderfynwyd cadarnhau'r cofnodion gan y Cyngor, yn ddibynnol ar yn cael ei nodi dylai cofnod 56/2018-19 (a) fod wedi cyfeirio at argaeledd a chostau Neuadd Porthyrhyd yn ogystal. / *Following a proposal by Cllr R Jones and seconding by Cllr M Rees, it was resolved to confirm the minutes by the Council, subject to it being noted that minute 56/2018-19 (a) should also have referred to Porthyrhyd Hall's availability and cost.*

### **82/2018-19 Materion yn Codi o'r cofnodion uchod / Matters arising from the above minutes.**

(a) **Yng Cofnod - 66/2018-19** – Roedd Aelodau yn hapus i nodi fod Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi hysbysebu'r Cyngor ei bod wedi cwblhau'r gwaith trwsio. Fe benderfynwyd nodi'r item yma. / **Minute 66/2018-19 refers** – *Members were pleased to note that Carmarthenshire County Council have informed the Council that they have completed the remedial works. It was resolved to note this item.*

### **83/2018-19 Mynediad Cynrychiolydd o'r Heddlu am 8.03pm a derbyn ei adroddiad / Entry of Police representative into meeting at 8.03pm and receiving of his report.**

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog. Fe roddwyd adroddiad ar lafar, ac roedd cyfle i Aelodau i ofyn cwestiynau. Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw bryderon ac ar ôl gael ei ddiolch am fynychu'r cyfarfod gan y Cadeirydd fe wnaeth y Swyddog adael am 8.08pm, heb ddychwelyd. Fe benderfynwyd nodi'r adroddiad. / *The Chairman welcomed the Officer to the Meeting. A verbal report was provided, and Members were provided the opportunity to ask questions. The Members had no concerns and following receipt of the Chairman's thanks for attending the meeting the Officer departed at 8.08pm, not to return. It was resolved to note the report.*

### **84/2018-19 Gohebiaeth / Correspondence.**

(a) Nodwyd yr itemau isod / *The below items were noted.*

**1 Un Llais Cymru** – (a) Pwyllgor Ardal 3/7/2018 (b) cyrsiau hyfforddiant (c) Cynhadledd Arfer Arloesol 4/7/18 (d) Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 29/9/18 / **One Voice Wales** (a) Area Committee 3/7/2018 (b) training courses (c) Innovative Practice Conference 4/7/18 (d) AGM and conference 29/9/18.

**2 Simon Hart MP** – Poster gwybodaeth – **Simon Hart MP** – Information poster.

**3 Cyngor Sir Gaerfyrddin** – (a) Arolwg anghenion tai gwledig (drafft – Cyngor wedi eisoes rhoi sylwadau cychwynnol ar e-bost) a poster (b) grant llwybrau diogel mewn cymunedau (c) Cylchlythyr Cyngorau Tref a Chymuned (d) ymgynghoriadau ar lein 11/7/18 /

**Carmarthenshire County Council** - (a) Draft Rural Household needs survey (Council has sent comments back on e mail) and poster (b) safe routes in communities grant (c) Town and Community Councils Newsletter (d) online consultations 11/7/18.

**4 CIC Hywel Dda** – (a) Adolygiad o brofiad cleifion ag D&A (b) ymgynghoriad Hywel Dda – Trawsnewid ein Gwasanaeth lechyd yn rhedeg tan ddydd Iau 12 Gorffennaf 2018 / **Hywel Dda CHC** – (a) A&E patient experience review (b) Our Big NHS Change consultation runs up until Thursday July 12 2018.

**5 Llywodraeth Cymru** – (a) Ymarfer Monitro Blyneddol ar y Cod Ymarfer Diwygiedig ar Faterion y Gweithlu – y Cod Dwy Haen - Clerc wedi ymateb eisioes ar rhan y Cyngor (dim byd i ddechyd) (b) Mewnwelediad ymarferol ar gyfer CTC a BGC ar gydweithio i helpu i ddarparu cynlluniau llesiant lleol – 17/7/18 (c) Swydd wag Dirprwy Bruf Arolygydd – Arolygiaeth Gofal Cymru (d) Cyhoeddi Cylchlythyr 008/2018 – Gofynion cynllunio mewn perthynas â defnyddio systemau carthffosiaeth preifat mewn datblygiadau newydd/ **Welsh Government** – (a) Revised Code of Practice on Workforce Matters – the Two Tier Code Annual Monitoring Exercise. - The Clerk has already replied on behalf of the Council (nil return) (b) Workshop 17/7/18 Practical insight for CTCs and PSBs on working together to help delivery of local well-being plans (c) Deputy Chief Inspector – Care Inspectorate Wales vacancy (d) Publication of Circular 008/2018 – Planning requirement in respect of the use of private sewerage in new development.

**6 Llywodraeth Cymru - Cymorth Ysgrifenyddiaeth – yr Adolygiad o Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru** - cylchlythyr / **Welsh Government - Secretariat Support – Review of Community and Town Councils in Wales** - newsletter.

**7 Cyngor Tref Caerfyrddin** – Gwyl yr Afon 23 a 24 Mehefin 2018 / **Carmarthen Town Council** – River Festival 23 and 24 June 2018.

**8 The 2018 Armistice project for the charity Remembered** (saesneg yn unig) - Remembrance Day Silhouette Installation Grants.

**9 Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd** - Cyfle ariannu newydd / **Office for the Police and Crime Commissioner** - New funding opportunity.

**10 Eiriol** – Cylchlythyr / Newsletter.

**11 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** - Cylchlythyr / **Older People's Commissioner for Wales** – Newsletter.

**12 Coed Cadw** - Coeden Gymreig y Flwyddyn / **Woodland Trust** - Wales Tree of the Year.

**13 Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dafydd Llywelyn** – Cylchlythyr / **Police and Crime Commissioner Dafydd Llywelyn** – Newsletter.

**14 Swyddfa Archwilio Cymru** – Adolygiad o ba mor effeithiol yw'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. / **Wales Audit Office** - Review of the effectiveness of social services in Wales.

**15 Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** - Ymgynghoriad Cyhoeddus / **Mid and West Wales Fire and Rescue Service** - Public Consultation.

**16 Cymdeithas yr Iaith** - Fforwm "Iaith i gynnal gwaith" – digwyddiad 15/9/18 / "Work to sustain the Language" Forum event 15/9/18.

(b) Gweithredoedd yn sgil ohebiaeth / *Actions resulting from correspondence:*

**1 Cyngor Cymuned Langstone** (Saesneg yn unig) / **Langstone Community Council** – Wales Road Safety Conference 2018, 7th September 2018, Celtic Manor Resort in Newport. It was resolved that Cllr S Herridge attend and that the Council provide a donation of £50.00 via the Chairman's Civic budget (S137).

**2 Cyngor Sir Gaerfyrddin** - Cofrestr lawn o etholwyr a chyngor ar ei ddefnydd. Fe benderfynwyd byddai'r Clerc yn gofyn am bwynt o esboniad ar os mae Aelodau yn gallu cael copi o'r gofrestr wrth y Clerc a hefyd os oes yna gopi cyhoeddus o'r gofrestr ar gael. / **Carmarthenshire County Council** - Full register of electors and advice on its use. It was resolved that the Clerk ask for clarification on whether Members can obtain a copy of the register from the Clerk and whether there is a public version of the register available.

**85/2018-19 Gysgodfa bws arfaethedig yn Llanddarog /**  
**Proposed bus shelter in Llanddarog**

Nid oedd unrhyw ddiweddariad wedi cael ei dderbyn.. Fe benderfynwyd nodi'r item yma. / *No update has been received. It was resolved to note this item.*

**86/2018-19 Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol /**  
**General Data Protection Regulation**

Fe roddwyd y papurau canlynol i'r Aelodau o flaen llaw'r cyfarfod: Archwiliad gwybodaeth, Polisi dargadw dogfennau Drafft, a dyfynbris wrth Edge IT Systems ar gyfer pris blynyddol Office 365 (£135.36GR) a sefydlu a symud dogfennau'r Cyngor drosodd i Office 365 SharePoint Online (£259.20GR). Mae cyngor wedi cael ei derbyn wrth y Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch y Cyngor yn defnyddio Proprint, Caerfyrddin ar gyfer cynhyrchu cofnodion ayyb. Nodwyd fod yr Proprint wedi dweud wrth y Clerc ei bod wedi dileu bob e bost y mae ef wedi danfon atynt. Fe wnaeth y Clerc gynghori fod amryw o gwmnïau yn cynnig gwasanaeth ddinistrio diogel dogfennau o fewn yr ardal. Nid oedd diweddariad ar lunio polisi diogelwch data ar gyfer y Cyngor.

**Fe benderfynwyd:**

- 1 Nodi'r Archwiliad gwybodaeth;
- 2 Gohirio Mabwysiadau'r Polisi dargadw dogfennau oherwydd pryderon ynglŷn â'i gywirdeb. Fe fydd Cyng R Jones a'r Clerc yn gweithio ar hwn cyn dod a fe yn ôl i'r Cyngor maes o law;
- 3 I godi archeb gyda Edge IT Systems ar sail y dyfynbrisiau;
- 4 Fod y Cyngor yn parhau i ddefnyddio Proprint a bod Cyng E Davies yn cynorthwyo'r Clerc i lunio cytundeb ysgrifenedig gyda nhw fel prosesydd data;
- 5 Fod y Clerc yn defnyddio unrhyw gwmni ddinistrio diogel dogfennau diangen y Cyngor fel bo'r angen. Gall Aelodau rhoi dogfennau diangen y Cyngor sydd ganddyn nhw i'r Clerc i'w ddinistrio.

*Members had been provided with the following papers in advance of the meeting: Information audit, Draft document retention policy and quotation from Edge IT systems for annual office 365 cost (£135.36GR) and setup and migration across to Office 365 SharePoint Online (£259.20GR) for the Council's documents. Advice has been obtained from the Information Commissioner as to the Council's use of Proprint, Carmarthen, to produce minutes etc. It was noted that Proprint have told the Clerk that they have deleted all e mails he has sent them. The Clerk advised that there a range of companies that provide a secure document destruction service within the area. There was no update on the formulation of a Data Protection Policy for the Council.*

**It was resolved**

- 1 *To note the information audit;*
- 2 *To defer the adoption of the document retention policy given concerns as to its accuracy. Cllr R Jones and the Clerk will work on it before bringing it back to the Council in due course;*
- 3 *To raise order with Edge IT systems based on quotes;*
- 4 *That the Council continue to use Proprint and that Cllr E Davies assist the Clerk in formulating a written contract with them as data processor;*
- 5 *That the Clerk utilise any secure destruction company for Council documents as and where required. Members can provide any Council documents that they no longer need to the Clerk for destroying.*

### **87/2018-19 Materion Cynllunio / Planning Matters**

Nid oedd ceisiadau o fewn ardal Cyngor Cymuned Llanddarog, ond fe gyfeiriwyd at gais W/37495 yn Llanarthne o'r rhestr wythnosol. Fe benderfynwyd os fyddai bryderon gyda Chyngor Cymuned Llanarthne neu/a'r Cyngorydd Sir ynglŷn â'r cais yma fe fydd Cyngor Cymuned Llanddarog yn pwysleisio'r rhain gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol oherwydd y pwysigrwydd o gael tai fforddiadwy 'ar safle' o fewn ein cymunedau. / *There were no applications within Llanddarog Community Council's area, however reference was made to application W/37495 in Llanarthne from the weekly list. It was resolved that should Llanarthne Community Council and/or the County Councillor have concerns then Llanddarog Community Council will reiterate these with the Local Planning Authority given the importance of 'on site' affordable housing being delivered within our communities.*

### **88/2018-19 Taliadau/ Payments**

Cadarnhawyd yr isod / The below were ratified

Rhif Siec / Cheque Number	Dyddiad/Date	Cyflenwr a manylion/ Suppliers and details	Swm/ Sum £
1377	15/6/18	Cyflog a threuliau y Clerc ar ol treth - cyfnod 3 Clerk's salary and expenses after tax - period 3	363.52
1378	15/6/18	HMRC – PAYE cyfnodau 1,2,3 periods 1,2,3	302.40
1379	11/7/18	Carmarthenshire County Council street lighting test fee	169.70
1380	11/7/18	Spencer Environmental (grass cutting contract)	478.84
1381	11/7/18	WCVA payroll agent (July)	20.10
1382	11/7/18	Menter Gwasnaethau Cyfieithu Translation	108.75

### **89/2018-19 Derbyniadau /Receipts**

Dim / None.

### **90/2018-19 Adroddiad atodlen arolwg cyflwr / Condition survey schedule report.**

Nid oedd yr adroddiad wedi cael ei dderbyn wrth TBM. Fe benderfynwyd byddai'r Clerc yn rhestrï'r item ar agenda cyfarfod mis Medi 2018 y Cyngor a hefyd ofyn a fyddai'n bosibl cwblhau'r gwaith cynnal a chadw yn dilyn yr adroddiad diwethaf cyn gynted ac sy'n bosibl. / *The report had not been received from TBM. Resolved that the Clerk list the item on the agenda of September 2018 meeting and also request that the agreed maintenance works following the last survey be undertaken as soon as possible.*

### **91/2018-19 Cadarnhau safbwynt polisi'r Cyngor ynglŷn â Gardd y Ffermwyr Ifanc (CFFi) yn Llanddarog / Confirmation of the Council's policy position on the Young Farmers Club (YFC) Garden in Llanddarog**

Fe roddwyd adroddiad i'r Aelodau o flaen llaw'r cyfarfod. Fe wnaeth y Clerc ofyn i'r Cyngor i gadarnhau unrhyw reolaeth neu gynnal a chadw efallai fydd am ymgymryd â hwy yn ychwanegol i beth mae'n gwneud yn barod ar y safle yma drwy ei rhaglen torri gwair ehangach o fewn yr ardal. Fe benderfynwyd byddai'r Cyngor yn ysgrifennu at yr CFFi yn gofyn a ydynt yn fwriadau ymgymryd â chynnal a chadw a chyflwr yr ardd. Os nad ydynt, fe fydd y Cyngor yn gofyn i'r CFFi i waredu'r holl blanhigion / tyfiant ayyb a gwneud yn dda / lefelu'r ardd. Yn ddibynnol ar y gwaith yma yn cael ei wneud yn

dderbyniol, fe fydd y Cyngor yn hapus i barhau i gynnwys yr ardal o fewn ei rhaglen torri gwair cymunedol (yn ddibynnol ar adolygiad cyfnodol y rhaglen). Fe fydd y CFFi yn cael ei gynghori i gadarnhau gyda'r tiffeddiannwr cyn ymgymryd ag unrhyw waith). / *A report had been provided to Members in advance of the meeting. The Clerk was asking the Council to confirm any management and maintenance it may wish to undertake over and above what it already does on this site as part of its wider grass cutting programme within the community. It was resolved that the Council write to the YFC asking if they are intending to undertake long-term maintenance and condition of the garden. If they are not, then the Council will ask the YFC to clear all plants / growth etc and make good / level off. Pending this work being done satisfactorily, then the Council would be happy to continue to include the area within its community grass cutting programme (subject to the periodical review of the programme). The YFC will be advised to confirm with the landowner first before undertaking any works.*

**92/2018-19 Ystyried cynnal cyfarfodydd y Cyngor yn Neuadd Llanddarog a Chlwb (Neuadd) Mynyddcerrig yn ogystal â Festri Porthyrhyd / Consideration of whether the Council will hold its meetings in Llanddarog Hall and Mynyddcerrig Club (Hall) as well Porthyrhyd Vestry**

Fe roddwyd adroddiad i'r Aelodau o flaen llaw'r cyfarfod a wnaeth dangos argaeledd a chost y lleoliadau. Fe gyfeiriwyd beth bynnag at y ffaith nad oedd Neuadd Porthyrhyd wedi cael ei chynnwys. Fe benderfynwyd rhestrir item yma eto ar agenda cyfarfod mis Medi 2018 y Cyngor (a chynnwys ystyriaeth o Neuadd Porthyrhyd) / *A report had been provided to Members in advance of the meeting which set out availability and cost of the venues. Reference was made however to the fact that Porthyrhyd Hall had not been included. It was resolved to list this item again on the agenda of the September 2018 meeting of Council (and include consideration of Porthyrhyd Hall).*

**93/2018-19 Trafodaethau gyda'r Cyngor Sir ynghlŷn â chynnal a chadw llwybrau a llwybrau ceffylau'r ardal / Discussions with the County Council in relation to maintenance of paths and bridleways within the area.**

Nid oedd y Clerc wedi cael ymateb o'r Cyngor Sir o ran cael cyfarfod. Fe adroddwyd fe fydd cyflwyniad yn cael ei rhoi i gyfarfod Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru i ddod. Fe benderfynwyd byddai'r Clerc yn rhestrir item ar agenda cyfarfod mis Medi 2018 / *The Clerk has not had a reply from the County Council in terms of having a meeting. It was reported that a presentation will be given at an upcoming One Voice Wales Area Committee meeting. Resolved that the Clerk list the item on the agenda of September 2018 meeting.*

**94/2018-19 Ystyried yr angen am astudiaeth adolygu gwerth asedion sefydlog / Consider the need for fixed asset valuation review**

Fe roddwyd adroddiad i'r Aelodau o flaen llaw'r cyfarfod. Fe benderfynwyd ni fydd angen cynnal adolygiad o fewn y term Cyngor presennol gan fod sail asedion cyfyng iawn gan y Cyngor. / *A report had been provided to Members in advance of the meeting. Resolved that there is no need to commission a review for the current Council term given the Council's limited asset base.*

**95/2018-19 Cyhoeddi taliadau ar gyfer Aelodau erbyn Medi 30 2018 / publication of remuneration for Members by September 30 2018**

Fe roddwyd papurau i'r Aelodau o flaen llaw'r cyfarfod ac fe wnaethent ystyried lwfans £300 ddinesig y Cadeirydd. Mae'r Panel Cydnabyddiaeth dim ond a diddordeb mewn a swm a thalwyd i faer/cadeirydd i'w gadw/defnyddio ar ei disgresiwn. Mae hwn yn wahanol i gyllideb ar gyfer gweithgareddau maer/cadeirydd. Fe benderfynwyd fod y Cyngor yn dehongli lwfans £300 2017-2018 y Cadeirydd fel cyllideb ddinesig yn hytrach na thaliad personol trethedig. Fe fydd y Cyngor felly yn gwneud dychweliad "dim" ar gyfer 2017/18 gan nad oedd taliad i unrhyw Aelod a chywiro'r ddwy flynedd diwethaf i fod yn ddychweliadau "dim" yn ogystal. / *Members had been provided with papers in advance of the meeting and considered the £300 Chairman's civic allowance. The Remuneration Panel is concerned only with the amount paid to the mayors/chairs as an honorarium to be used or retained at their discretion. This is separate from a budget for mayoral/chair activities. Resolved that the Council deem the Chairman's 2017-2018 £300 allowance as a civic budget rather than taxable personal payment. The Council will therefore provide a "nil" return for 2017/18 as there was no payment to any Member and correct the last two years to be "nil" returns also.*

**96/2018-19 Fforwm er mwyn i Aelodau i godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd / Forum in order for Members to raise reports / questions through the Chairman.**

(a) **Ffioedd Taxis** – Wrth nodi cofnod 65/2018-19, teimlwyd fod angen datblygu sail tystiolaeth o ran y ffioedd sy'n cael ei chodi yn lleol. Penderfynwyd cadarnhau'r angen i ddatblygu'r dystiolaeth ac fe fydd Cyng J Williams yn arwain / **Taxi Fees** – *In noting minute 65/2018-19, it was considered that further evidence is required to understand the varying charges being raised locally. It was resolved to ratify the need for evidence and Cllr J Williams will lead.*

(b) **Fflagiau** – Daeth adroddiad fod angen archebu 3 fflag. Mae gan y cyn Aelod Mr T Jones manylion archebu'r cyflenwr. Penderfynwyd cadarnhau codi'r archeb ac fe fydd Mr T Jones yn cael ad-daliad yn seiliedig ar gyflwyno derbynneb. / **Flags** – *It was reported that 3 flags need ordering. Former Councillor Mr T Jones has the contact details of the supplier. It was resolved to ratify placing of order and that Mr T Jones be refunded upon production of receipt.*

**97/2018-19 Mewn camera/ In camera (cyfieithydd yn gadael am 9.05pm heb ddychwelyd / Translator departed at 9.05pm not to return.**

**98/2018-19 Materion Cyflog a treuliau Cyfnodau 4 a 5 2018-19 / Salary and expenses matters Periods 4 and 5 2018-19**

Fe wnaeth bod Aelod derbyn copi o'r adroddiad o flaen llaw. Fe benderfynwyd derbyn yr adroddiad a chadarnhau talu'r symiau fel y cyflwynwyd / *Each Member had been provided with a written report in advance of the meeting. It was resolved to accept the report and ratify payment of sums as presented.*

**99/2018-19 Adolygiad parhaol o sefyllfa ymrestru awtomatig / Continued review of auto enrolment position**

Fe wnaeth bod Aelod dderbyn adroddiad ysgrifenedig o flaen llaw'r cyfarfod. Fe wnaeth yr adroddiad amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran cymhwysedd y Clerc ar gyfer ymrestru awtomatig. Nid yw'r Clerc wedi gofyn i ymuno gyda chynllun. Penderfynwyd nodi'r adolygiad fel y ganlyn / *Each Member had been provided with a written report in advance of the meeting. The report outlined the present position in relation to the Clerk's eligibility for auto enrollment. The Clerk has not asked to join a scheme. Resolved to note the review accordingly.*

**100/2018-19 Daeth y cyfarfod i ben am 9.10pm / The meeting finished at 9.10pm**